Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Waun Wen

**Lion Street**
**Waun Wen**
**Abertawe**
**SA1 2BZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Waun Wen

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Waun Wen |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 202 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 152 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 28 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.3%) | 47.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 20.6%) | 44.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 42.8% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 02/07/2013 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 20/06/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru.

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae hon yn ysgol hapus. Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn perthyn yn gyflym. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda iawn ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi. Maent yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu, yn aml o fannau cychwyn isel. Mae disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da. Mae hyn oherwydd bod staff yn eu cynorthwyo'n dda iawn o'r adeg y byddant yn cyrraedd yr ysgol.

Mae pob un o'r staff yn gofalu am ddisgyblion yn dda iawn, a lles pennaf disgyblion sydd wrth wraidd yr ysgol. Maent yn deall eu hanghenion, a cheir llawer o raglenni effeithiol i gefnogi lles disgyblion a helpu cael gwared ar y pethau sy'n ei gwneud yn anodd iddynt ddysgu. Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r gymuned a wasanaethir gan yr ysgol. Maent yn datblygu perthnasoedd cryf â rhieni ac yn ceisio achub ar bob cyfle i'w cynnwys yn addysg eu plant.

Mae arweinwyr yn rhoi cyfeiriad clir i'r ysgol. Maent yn gwneud yn siŵr fod pob aelod o staff yn gweithio i wella bywydau disgyblion a'u bod yn barod yn emosiynol i ddysgu. Ceir ethos tîm cryf yn yr ysgol.

Mae adeilad a safle'r ysgol yn achosi llawer o heriau, ac er bod arweinwyr a staff yn gweithio'n galed i wneud gwelliannau, mae yna agweddau sydd angen sylw o hyd.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r problemau'n ymwneud ag amgylchedd ffisegol yr ysgol sy'n effeithio ar les disgyblion a nodwyd yn yr adroddiad

A2 Gwella darpariaeth awyr agored i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pob un o'r disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â dileu rhwystrau rhag dysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn y dosbarth meithrin gyda medrau mewn iaith, datblygiad mathemategol a datblygiad corfforol ymhell islaw’r rhai sy’n ddisgwyliedig am eu hoedran. Mae symudedd sylweddol ar draws poblogaeth yr ysgol, ac mae disgyblion yn ymuno â’r ysgol yn rheolaidd ran o’r ffordd trwy eu haddysg gynradd. Mae llawer o’r disgyblion hyn yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae’r cyfleoedd gwerthfawr niferus i ddisgyblion fynegi eu hunain trwy gelf, cerddoriaeth, barddoniaeth a dawns yn galluogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn talu sylw manwl i ffurf a manylder wrth fraslunio cregyn â siarcol. Mae medrau creadigol tra datblygedig disgyblion yn cefnogi eu gallu i gyfrannu at feysydd eraill y cwricwlwm, yn aml cyn iddynt ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn Saesneg yn effeithiol.

Pan fyddant yn ymuno â’r dosbarth meithrin, mae llawer o ddisgyblion yn ei chael yn anodd gwrando a chyfleu eu hanghenion yn glir. Mae eu medrau llafaredd, iaith a chyfathrebu yn datblygu’n gyflym wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn gwrando’n astud ar storïau ac yn trafod elfennau o stori, gan awgrymu dewisiadau amgen o eiriau am deimladau, a dangos empathi â’r cymeriadau. Mae disgyblion hŷn yn cyfathrebu’n hyderus ag oedolion ac yn siarad yn frwdfrydig am eu dylanwad ar fywyd ysgol a thestunau maent yn eu mwynhau.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Maent yn frwdfrydig am lyfrau a darllen. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth dda am seiniau llythrennau ac yn defnyddio hyn ochr yn ochr â thechnegau eraill i ddadgodio geiriau newydd ac anghyfarwydd. Ym Mlwyddyn 3 a Blwyddyn 4, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen gyda mynegiant da ac yn defnyddio atalnodi’n dda i gynnal eglurder ac ystyr. Mae disgyblion hŷn yn brasddarllen trwy eu llyfrau i gael gwybodaeth yn gyflym.

Mae ysgrifennu disgyblion yn datblygu’n dda ar draws yr ysgol. Maent yn dechrau datblygu arddull llawysgrifen gydgysylltiedig cyn gynted ag y byddant yn dechrau ysgrifennu. Yn y dosbarth derbyn, maent yn arbrofi â ffurfio llythrennau, ac wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae eu rheolaeth yn gwella, ac mae llawer o ddisgyblion yn datblygu arddull llawysgrifen ddestlus yn gyflym. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn ddestlus ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynigion da ar sillafu geiriau newydd ac yn defnyddio geirfa sy’n gynyddol uchelgeisiol. Maent yn ysgrifennu’n hyderus mewn amrywiaeth o arddulliau ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan olygu eu gwaith yn aml i wella eu dewisiadau geirfa.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cryf mewn datblygu eu medrau mathemateg a rhifedd. Mae athrawon yn rhoi ffocws cryf ar helpu disgyblion i ddeall yr iaith fathemategol sydd ei hangen ar gyfer gwahanol destunau, ac o ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gref o gysyniadau mathemategol. Er enghraifft, yn y dosbarth meithrin, mae disgyblion yn dechrau deall iaith leoliadol trwy eu chwarae pan fyddant yn chwilio am wrthrychau yn yr ardal awyr agored. Ym Mlwyddyn 5, mae disgyblion yn nodi beth mae pob rhan o rif degol yn ei gynrychioli yn hyderus, ac yn ysgrifennu'r rhifau hyn mewn gwahanol ffurfiau, fel ffracsiynau. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio modelau mathemategol yn llwyddiannus i'w helpu i fynd i'r afael â phroblemau, ac maent yn awyddus i gwblhau gwaith mwy heriol. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud defnydd da o offer ymarferol i'w helpu i ddeall eu gwaith mewn mathemateg. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus am sut maent yn ymdrin â phroblemau, a gallant esbonio eu dulliau i ddisgyblion eraill yn glir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau yn Gymraeg yn briodol ac yn dangos brwdfrydedd dros ddysgu'r iaith. Mae disgyblion iau yn dilyn cyfarwyddiadau yn Gymraeg ac yn dechrau gofyn ac ateb cwestiynau syml. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o'r Gymraeg yn datblygu i gynnwys patrymau iaith mwy cymhleth. Mae disgyblion yn awyddus i geisio ymestyn eu brawddegau, yn aml trwy roi rhesymau am eu dewisiadau neu ffafriaethau. Yn ystod y pandemig, cafodd y rhan fwyaf o ddisgyblion lai o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac mae hyn wedi cael effaith negyddol ar eu cynnydd cyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio technoleg yn briodol i gefnogi eu dysgu ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mae disgyblion iau yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn dda wrth ddefnyddio rhaglenni i dynnu llun gwrthrychau. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio offer digidol yn fedrus i gydweithio ar ddarnau o waith, fel cyflwyniadau am fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Maent yn creu ac yn casglu gwybodaeth o gronfeydd data i gefnogi amrywiaeth o waith thematig, ac yn dechrau defnyddio taenlenni i gofnodi gwybodaeth.

Mae medrau corfforol disgyblion yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn balansio ar, ac yn symud rhwng, gwahanol ddarnau o offer yn yr ardal awyr agored. Fodd bynnag, yn aml, caiff datblygiad corfforol cyffredinol disgyblion ei gyfyngu gan gyfyngiadau amgylchedd yr ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion lefelau lles uchel ar draws yr ysgol, ac yn dangos parch at ei gilydd, eu hysgol a'u cymuned. Maent yn deall eu bod yn derbyn gofal da ac mae ganddynt agwedd ofalgar tuag at bobl eraill. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol o ganlyniad i'r cyfleoedd niferus i ddisgyblion drafod eu teimladau a'u hemosiynau trwy 'wiriadau' lles rheolaidd.

Caiff llawer o ddisgyblion gyfleoedd addas i ddatblygu eu medrau arwain trwy ystod o rolau a phwyllgorau llais y disgybl. Wrth ymgymryd â'r rolau hyn, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno eu hunain â hyder ac eglurder, ac yn nodi ble mae eu gwaith wedi gwneud gwahaniaeth i fywyd ysgol. Er enghraifft, fe wnaeth y pwyllgor eco atal defnydd o wellt plastig, ac mae disgyblion yn deall sut mae hyn yn helpu'r amgylchedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod am eu hawliau fel plant, ac yn deall bod ganddynt hawliau. Mae disgyblion hŷn yn siarad am eu hawliau yn fanwl, beth maent yn ei olygu i unigolyn a sut cânt eu hatgyfnerthu o fewn yr ysgol. Maent yn disgrifio gwledydd lle nad yw hawliau disgyblion yn cael eu hategu, ac yn cymharu eu bywydau eu hunain â disgyblion mewn gwledydd eraill. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, daw disgyblion yn gynyddol empathetig. Maent yn parchu pobl eraill ac yn dathlu'r amrywiaeth o fewn eu hysgol a'u cymuned yn frwdfrydig.

Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Er enghraifft, maent yn gwybod am bwysigrwydd gwarchod eu cyfrineiriau a'u gwybodaeth bersonol. Maent yn arwain gwasanaethau ar agweddau ar e-ddiogelwch ac yn mynd ati i gymryd rhan mewn diwrnodau diogelwch ar y rhyngrwyd, gan greu posteri yn annog defnydd diogel o'r rhyngrwyd.

Mae pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd i fod yn iach. Caiff hyn ei hyrwyddo'n dda gan lysgenhadon chwaraeon yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth addas am bwysigrwydd sut i wneud dewisiadau iach yn ymwneud â diet.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn ofalus wrth symud o gwmpas yr adeilad, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r grisiau, a maes chwarae'r ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu. Mae bron pob un ohonynt yn siarad yn frwdfrydig am eu gwersi ac yn ymfalchïo mewn dangos yr hyn y gallant ei wneud. Maent yn disgrifio'n hyderus sut gallant ddweud eu dweud am beth maent yn ei ddysgu, er enghraifft yn ystod trafodaethau yng ngham cynllunio eu testunau dysgu.

Mae pob un o'r disgyblion yn bwrw ymlaen â'u gwaith yn gyflym ac yn gydwybodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Maent yn dal ati i ganolbwyntio mewn gwersi, gan ddyfalbarhau â thasgau wrth gwblhau gwaith mwy heriol. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin a'r dosbarth derbyn yn dechrau dangos medrau annibynnol da pan fyddant yn dewis gweithgareddau iddyn nhw eu hunain yn ystod eu chwarae. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda. Mae disgyblion hŷn yn chwilio am eu hatebion eu hunain i gwestiynau neu broblemau ac yn aml yn defnyddio dull 'hunan, cymydog, pobl eraill' yn effeithiol cyn gofyn i'w hathro am help. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn dangos parch at gyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy alluogi pobl eraill i siarad neu drwy aros yn bwyllog pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw. Maent yn gwrando'n amyneddgar, yn cymryd eu tro mewn gweithgareddau pâr ac yn rhannu offer yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb i adborth gan oedolion a'u cyfoedion yn dda. Maent yn cymryd amser i hunanasesu eu dysgu ac yn ymateb i sylwadau athrawon mewn modd cadarnhaol.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o'r arolygiad.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan bob aelod o staff berthnasoedd gweithio cynnes a chadarnhaol gyda disgyblion. Maent yn cynorthwyo'r rhai sy'n llai hyderus, neu y mae'r Saesneg yn newydd iddynt, i ymgynefino'n gyflym, ac yn eu hannog i gyfrannu at wersi yn effeithiol iawn. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r dysgu'n symud ar gyflymdra priodol ac ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae pob un o'r staff yn modelu iaith yn dda ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi derbyn dysgu proffesiynol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion iaith penodol. Mae'r ffocws ar ddatblygu geirfa disgyblion yn yr holl wersi yn cyfrannu'n gryf at y cynnydd a wna disgyblion ar draws y cwricwlwm, ac mae'n gryfder yn yr ysgol.

Mae athrawon yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn derbyn lefel briodol o her ac yn gweithio'n agos gyda staff cymorth i sicrhau bod disgyblion yn cael y lefel gywir o gymorth â'u gwaith i uchafu dysgu. Mewn gwersi, mae staff yn rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion yn gyson am sut i wella eu gwaith. Maent yn oedi gwersi yn ddefnyddiol i wneud yn siŵr bod pob un o'r disgyblion yn deall beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt, ac yn mynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth yn brydlon.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol a dychmygus sy'n ennyn ymgysylltiad disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn annog disgyblion i fod yn greadigol ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol trwy farddoniaeth, celf, drama a cherddoriaeth. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn perfformio cerdd am igwana a'i gosod i gerddoriaeth. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth briodol i'r hyn yr hoffai disgyblion ei ddysgu ac yn cynnwys hyn yn eu cynllunio. Pan mae disgyblion wedi awgrymu syniadau na ellir darparu ar eu cyfer ar y pryd, maent yn aml yn defnyddio'r rhain fel syniadau i ddisgyblion eu defnyddio yn ystod gwaith annibynnol pan allant ddatblygu eu diddordebau eu hunain. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo bod eu barnau'n cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael dweud eu dweud ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut.

Mae athrawon wedi rhoi ystyriaeth dda i gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a'i weithredu. Maent wedi cyflwyno disgyblion i bedwar diben y cwricwlwm ac eisoes yn cynllunio yn unol â'r rhain a'r chwe maes dysgu a phrofiad. Mae athrawon yn dechrau ystyried sut gallai fod angen iddynt addasu eu haddysgu i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd, ond wedi ymrwymo'n gryf i agweddau ar addysgu sydd wedi bod yn llwyddiannus dros gyfnod. Er enghraifft, gwneir defnydd da o offer ymarferol i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o fedrau mathemategol ym mhob dosbarth, ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd cryf a wna disgyblion o ran datblygu eu medrau rhifedd ac at eu gallu i esbonio eu meddwl mathemategol â sicrwydd.

Ceir ymagwedd ysgol gyfan effeithiol at ddatblygu cariad at ddarllen a llenyddiaeth. Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i wrando ar storïau sy'n cael eu hadrodd gan eu hathrawon ar ddiwedd y dydd. Mae athrawon yn rhoi gwerth uchel ar y gweithgaredd hwn. Ym mhob dosbarth, mae disgyblion yn edrych ymlaen at yr adeg hon ac yn siarad â brwdfrydedd am y storïau a glywant. Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol, a cheir ymagwedd systematig at ddatblygu eu medrau. Yn aml, gall disgyblion ddewis llyfr i'w ddarllen yn iaith eu haelwyd yn yr ysgol, a'i rannu gartref. Mae hyn yn dangos iddyn nhw sut mae'r ysgol yn gwerthfawrogi eu hiaith, diwylliant a threftadaeth.

At ei gilydd, mae gan staff ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac maent yn darparu dysgu sylfaen addas ar gyfer disgyblion. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff disgyblion gyfleoedd da i ddilyn eu diddordebau ac archwilio ac arbrofi trwy eu chwarae. Mae oedolion yn galluogi dysgu'n dda trwy chwarae ochr yn ochr â disgyblion, gan wybod pryd i sefyll yn ôl a phryd i ymyrryd i fynd â'r dysgu yn ei flaen. Ar ychydig o achlysuron, caiff gweithgareddau eu harwain yn ormodol gan oedolion, ac mae hyn yn rhwystro datblygiad medrau dysgu'n annibynnol disgyblion.

Mae athrawon wedi ystyried eu hymagwedd at ddysgu yn yr awyr agored ar draws yr ysgol. Maent wedi gwrando ar farn disgyblion, ac o ganlyniad, wedi meddwl am sut gallant wneud mwy o ddefnydd o fannau awyr agored, gan gynnwys y parc cyfagos, i ymestyn dysgu disgyblion. Ceir cyfleoedd da i ddisgyblion o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 1 ddatblygu eu medrau yn yr ardal awyr agored, ond mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn llai datblygedig.

Mae oedolion yn datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn dda trwy ddull systematig a sesiynau ymarfer dyddiol. Mae gan ddisgyblion ymdeimlad o falchder am fyw yng Nghymru, a chefnogir hyn yn dda gan lawer o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn rhan o Gymru fodern amlddiwylliannol.

Ceir cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrio ar agweddau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae disgyblion hŷn yn dysgu am heddwch a gwrthdaro ac yn llunio eu haraith "Mae gen i freuddwyd" eu hunain yn seiliedig ar waith Martin Luther King. Mae athrawon yn annog disgyblion i rannu ac addysgu disgyblion eraill am iaith eu haelwyd yn ystod amser gwersi. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio iaith arall yn rheolaidd, fel Mandarin neu Arabeg, i ateb y gofrestr neu groesawu pobl eraill.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Ceir cymorth cryf iawn ar gyfer anghenion emosiynol disgyblion ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys system sy'n briodol i oedran i wirio sut mae disgyblion yn teimlo bob bore. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn dangos pa liw anghenfil y maent yn teimlo agosaf ato. Mae oedolion yn ystyried hyn ac, mewn ffordd sensitif, yn rhoi amser i ddisgyblion siarad os byddant yn anhapus. Ers y pandemig, mae arweinwyr wedi ymestyn y ddarpariaeth i gefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae'r rhain wedi cynnwys darparu dysgu proffesiynol ar gyfer staff a chodi ymwybyddiaeth disgyblion am eu lles emosiynol a sut i aros yn bwyllog pan fyddant yn teimlo'n orbryderus. Yn ystod y dydd, mae systemau i helpu disgyblion sy'n cael trafferth â'u hemosiynau i hunanreoli. Gall disgyblion sy'n cael trafferth ymdawelu droi at oedolion hyfforddedig trwy gydol y dydd i gefnogi eu hymgysylltiad mewn gwersi.

Mae gan yr ysgol ethos gofalgar iawn ac mae'n mynd ati i hyrwyddo hunan-barch pob un o'i disgyblion. Er enghraifft, caiff disgyblion eu dewis fel aelodau o amrywiaeth o grwpiau llais y disgybl, yn aml am fod ganddynt fedr dynodedig y gallant ei rannu â disgyblion eraill. Cânt hyfforddiant ar gyfer y rôl hon ac mae'r hyfforddwr yn goruchwylio eu gwaith yn agos i sicrhau ei fod yn cael yr effaith ddymunol.

Mae'r ysgol yn gymuned amrywiol ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion barchu credoau a chefndiroedd pobl eraill. Er enghraifft, mae rhieni'n ymweld â'r ysgol i

siarad am eu diwylliant a rhannu gwahanol fwydydd. Yn ystod y pandemig, nododd yr ysgol fod angen cynorthwyo'r gymuned trwy ddarparu bwyd, dillad a chynhyrchion eraill ar gyfer yr aelwyd. Mae'r rhain ar gael trwy siop dros dro. Mae staff yn darparu gwersi coginio i ychwanegu at fedrau rhieni a rhoi syniadau i rieni o ddiwylliannau eraill am sut i baratoi bwyd a geir mewn siopau yng Nghymru. Mae gwaith ar barchu hawliau disgyblion yn amlwg iawn ar draws yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u hawliau, ac maent yn rhannu gwybodaeth yn gysylltiedig ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rheolaidd trwy wasanaethau ac arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol. Mae addoli dyddiol ar y cyd yn adlewyrchu natur amlddiwylliannol yr ysgol yn dda, ac yn cynnwys dathliadau o fathau eraill o ffydd, fel Diwali, Eid a'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd.

Mae staff yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu dwyieithog a ddarperir gan aelodau o staff neu gyfieithwyr cymwys i hyrwyddo ymgysylltiad yr holl rieni. Mae'r ysgol yn mynd ati i ddathlu ei chymuned amlddiwylliannol. Er enghraifft, yn ystod Diwrnod y Llyfr, cafodd rhieni gyfle i rannu storïau a cherddi yn eu hiaith wreiddiol. Wedyn, roedd disgyblion yn gallu darllen storïau yn eu hiaith wreiddiol a gyda chyfieithiadau.

Ceir systemau sefydledig i gynorthwyo disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, ac mae staff yn cymhwyso'r rhain yn drylwyr o'r adeg y mae disgyblion yn dechrau yn yr ysgol. Mae staff yn rhoi amser i ddisgyblion fagu eu hyder a meithrin medrau iaith gynnar mewn amgylchedd newydd ac anghyfarwydd. Defnyddiant ganeuon, rhigymau a llawer o ailadrodd i ddatblygu medrau Saesneg disgyblion, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cael ei chydnabod am ei gwaith yn cynorthwyo disgyblion newydd, gan gynnwys y rhai sy'n fregus, trwy ddarparu ymdeimlad o berthyn a'u galluogi i ymgynefino'n gyflym.

Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu sut i fod yn iach ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, caiff gallu disgyblion i fod yn gorfforol egnïol yn ystod amseroedd egwyl ei gyfyngu oherwydd cyfyngiadau ac ansawdd arwyneb yr ardaloedd chwarae.

Mae'r ysgol yn gwbl gynhwysol ac mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Mae staff yn olrhain ac yn monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei theilwra i ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Mae staff yn defnyddio arfer yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn dda. Maent yn cynnwys disgyblion, rhieni a barn asiantaethau allanol yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu disgyblion.

Mae staff yn monitro presenoldeb disgyblion yn effeithiol. Mae systemau i gefnogi a herio presenoldeb isel yn drylwyr, a thros gyfnod, wedi arwain at lefelau presenoldeb gwell.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch, empathi, gofal a chymorth. Ceir system sefydledig i adrodd am bryderon diogelu ynghylch disgyblion, ac mae'r ysgol yn gwneud atgyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol pan fydd yn briodol. Yn gyffredinol, mae arweinwyr a staff yn cynnal asesiadau risg ac yn rheoli risgiau yn

briodol. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol o hyd yn gysylltiedig â ffabrig gwael yr adeilad a'i amgylchedd allanol, fel anwastadrwydd iard yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn ymgysylltu'n dda â'r holl randdeiliaid i gyfleu gweledigaeth yr ysgol. Mae'n dangos arweinyddiaeth dosturiol, gan weithio'n effeithiol ochr yn ochr ag uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol i sicrhau'r gorau oll ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn helpu hyrwyddo ethos o gynwysoldeb a chyflawniad i bawb. Mae perthnasoedd ar draws yr ysgol yn gryf iawn, ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r ymdrech a'r cymorth a ddarperir gan yr ysgol i gynorthwyo'i phlant a'i theuluoedd. Er enghraifft, maent yn gwybod bod y swyddog cymorth bugeiliol yno i'w helpu ac yn gofyn iddi am ei chymorth a'i chyngor yn rheolaidd.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw priodol i'r holl flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Cynllunnir ar gyfer y rhain yn strategol gyda thargedau ffocysedig ar gyfer gwella. Er enghraifft, un o gryfderau dull yr ysgol yw'r amrywiaeth eang o staff sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro trwy eu timau meysydd dysgu a phrofiad. Mae hyn yn helpu sicrhau bod pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn rhan o broses wella'r ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn monitro effaith y camau gweithredu yn addas ar lefel disgybl unigol. Maent yn cynnwys staff mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso defnyddiol i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, mae arweinwyr yn rhoi sylw i wella medrau llythrennedd sylfaenol disgyblion. Maent yn monitro amrywiaeth o raglenni ymyrraeth penodol yn effeithiol, ac yn mesur yr effaith a gânt ar ddysgu pob plentyn. Er bod arweinwyr ar bob lefel yn monitro ac yn gwerthuso darpariaeth ar lefel disgybl unigol yn briodol, mae ffocws annigonol ar effaith y camau gweithredu ar lefel ysgol gyfan.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn cael eu hysbysu'n dda gan uwch arweinwyr. Maent yn helpu'r ysgol i reoli a defnyddio'i hadnoddau yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Er enghraifft, maent yn monitro gwariant cynlluniedig yn erbyn meini prawf y grant yn dda. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i ddarparu cymorth priodol o ran llythrennedd, rhifedd a lles ar gyfer ei dysgwyr bregus, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae llywodraethwyr yn rhoi sylw i gau'r bwlch o ran tlodi ac yn nodi'r effaith gadarnhaol a gaiff siop dros dro'r ysgol ar gynorthwyo teuluoedd mewn angen ariannol. O ganlyniad i ymgysylltu â staff, trwy ymweliadau â'r ysgol a gweithgareddau monitro, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o ansawdd y ddarpariaeth. Maent yn gweithio gydag arweinwyr i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau addas i hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion.

Mae arweinwyr yn derbyn datblygiad proffesiynol priodol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Mae staff hynod fedrus yn cefnogi datblygiad y tîm cyfan, gan sicrhau bod blaenoriaethau'r ysgol yn cael eu bodloni'n briodol. Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn gweithio gyda staff a llywodraethwyr i ystyried cynllunio dilyniant yn dda. Mae hyn wedi annog arweinwyr ar bob lefel i ddatblygu eu hunain yn broffesiynol. Er enghraifft, mae arweinwyr canol wedi ymgymryd â phrosiectau penodol i wella'r ysgol, fel gwaith ar helpu newydd-ddyfodiaid i'r ysgol i ymgynefino'n gyflym a datblygu ymdeimlad o berthyn, gan deimlo'n rhan o 'Deulu Waun Wen'. Mae arweinwyr yn nodi'r effaith gadarnhaol mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar les disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r uwch staff yn cydweithio'n dda ag ysgolion clwstwr a phartneriaid allanol i gynllunio darpariaeth, ymyrraeth a chymorth priodol. Mae hyn yn cynnwys gwaith tuag at y Cwricwlwm i Gymru a gwella darpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n fregus, er enghraifft gwaith yr ysgol i gynorthwyo disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ei gwaith gyda rhieni a'r gymuned ac yn achub ar bob cyfle i wrando ar y wybodaeth a rennir, dysgu oddi wrthi, a gweithredu arni yn briodol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  22/08/2022